***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 3241 (Cy.283)

# TIR, CYMRU
# YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004

*Wedi'u gwneud - - 8 Rhagfyr 2004*

*Yn dod i rym - - 31 Rhagfyr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 68(7)(b) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ("y Ddeddf")(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gŵynion a wneir, mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru(**2**), o dan adran 68 o'r Ddeddf i awdurdod perthnasol(**3**) ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

### Uchafswm rhagnodedig

**2.** Rhaid i'r ffi a bennir gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 68(1)(b) o'r Ddeddf beidio â bod yn fwy na £320.

(**1**) 2003 p.38.
(**2**) *Gweler* adran 66 o'r Ddeddf ar gyfer ystyr "high hedge".
(**3**) Mae adran 65(5) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant authority" fel yr awdurdod lleol y mae'r tir y mae'r gwrych neu'r berth uchel wedi'u lleoli arno yn ei ardal. Mae adran 82 o'r Ddeddf yn diffinio "local authority", mewn perthynas â Chymru, fel y sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

8 Rhagfyr 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ymdrin â chwynion ynghylch gwrychoedd neu berthi uchel sy'n effeithio'n andwyol ar y mwynhad a gaiff cymydog o'i eiddo.

Caiff perchennog neu feddiannydd eiddo domestig wneud cwyn os bod uchder gwrych neu berth a leolir ar dir y mae person arall yn berchen arno neu'n ei feddiannu yn effeithio'n andwyol ar y mwynhad rhesymol a gaiff y perchennog neu'r meddiannydd o'r eiddo hwnnw.

Rhaid gwneud cwyn i'r awdurdod lleol y mae'r tir y mae'r gwrych neu'r berth wedi'u lleoli arno yn ei ardal a rhaid amgáu gyda'r gŵyn ffi a bennir gan yr awdurdod lleol (yn ddarostyngedig i uchafswm a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru).

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r uchafswm hwnnw.